**Cyngor Cymuned Llaneilian (338)**
Cofnodion cyfarfod Awst 17, 2021 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

**Presennol:** Ian Evans, Elfyn Hughes, John Griffiths, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Glenys Jones, Dafydd Griffiths, Carli Evans Thau (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Alan Williams, Hefina Williams

**1 Croeso**
Cadeirwyd y cyfarfod gan Ian Evans a bu croesawu pawb yn bresennol a diolch iddynt am fynychu cyfarfod ychwanegol.

**2 Datgan Diddordeb**
Dim

**3 Cadarnhau Gwaith ym Maes Llwyfo**
Ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, bu Carol Whitaker, Gordon Hayes, Glenys Jones ac Ian Evans gwrdd ar y safle gyda WE Jones i gadarnhau gofynnion y gwaith a chadarnhau cywirdeb y pris oedd wedi ei gyflwyno.

Cadarnhawyd bod prisiau eraill wedi eu derbyn am y gwaith ac mai pris WE Jones oedd y mwyaf ffafriol. Cynnigwyd derbyn pris y cwmni am y gwaith cynnig Carol Whitaker, eilio Gordon Hayes. Y clerc i gadarnhau a'r cwmni i gychwyn ar y gwaith cyn gynted a phosib.

Cytuno yn unfrydol byddai talu am y gwaith £16k (cyn TAW) o Gronfa Ty Moel Isaf. Cynnig Carol Whitaker, eilio Glenys Jones.

Cytuno rhoi datganiad ar Facebook ac ar wefan y Cyngor unwaith bydd dyddiad cychwyn wedi ei gadarnhau.

**4 Cadarnhau Archebu Placiau TMI**
Cadarnhawyd bod pob aelod wedi gweld y sampl erbyn hyn, au bod yn hapus i'r clerc symud ymlaen ac archebu'r nifer oedd eu hangen. Cytuno archebu bocs o 'screws' penodol i'w gosod fel na fydd posib eu tynnu heb declyn arbennigol.

**5 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor i'w gynnal nos Fawrth Medi 14, 2021 am 7yh.
Bu'r cyfarfod orffen am 7.15 o'r gloch

**Arwyddwyd**
**Ian Evans**
**Cadeirydd**

CET08/2021